



AWTTC

Strategaeth gynaliadwyedd

2023

Cynnwys

Strategaeth gynaliadwyedd	1
Cyflwyniad.....	3
Beth fyddwn ni'n ei wneud?	4
Cynllun gweithredu	6

Cyflwyniad

Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, yn nodi'r ffyrdd y byddwn yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae gan y Cynllun 46 o fentrau a thargedau ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru. Mae'r targedau'n uchelgeisiol ac efallai y bydd angen newid syfrdanol yn ein hymagwedd at ofal iechyd, ond rhaid inni weithredu ar unwaith os ydym am leihau ein heffaith ar yr hinsawdd. Targedau datgarboneiddio GIG Cymru yw sicrhau gostyngiad o 16% mewn allyriadau carbon erbyn 2025, a 34% erbyn 2030.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn gosod dyletswydd ar y GIG yng Nghymru i ystyried cynaliadwyedd drwy gydol ei waith. Felly, mae'n darparu sbardun pwrpasol i GIG Cymru wneud newidiadau gwirioneddol yn yr allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'i wasanaethau. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at gyflawni pob un o 7 o nodau llesiant y Ddeddf i greu Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal, sy'n gyfrifol yn fyd-eang, o gymunedau cydlynus, sydd â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC) a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn cefnogi GIG Cymru i roi'r mentrau ar waith a sicrhau bod y targedau'n cael eu cyflawni. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n cynnal AWTTC ac mae'n ymwneud â strategaethau a grwpiau cynaliadwyedd ar lefel leol. Ar lefel genedlaethol mae AWTTC yn cyfrannu at fentrau cynaliadwyedd GIG Cymru, gan gynnwys y strategaeth genedlaethol i Gymru ar 'Datgarboneiddio – rhagnodi, defnyddio a gwaredu anadlyddion'. Mae AWTTC yn chwarae rhan allweddol wrth gysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant fferyllol yng Nghymru ynghylch eu mentrau cynaliadwyedd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynllun gweithredu lleol a chenedlaethol AWTTC i'n helpu i leihau ôl troed carbon y GIG, gweithio'n fwy cynaliadwy a gwneud Cymru'n lle gwell i fyw ynddo ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Bydd AWTTC yn ymgysylltu â'i staff ac yn eu cefnogi i wneud yn siŵr bod ein staff ac ymwelwyr yn gwybod am ymrwymiad AWTTC i gynaliadwyedd, a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu cyfraniad.

Bydd AWTTC yn hyrwyddo monitro amgylcheddol fel rhan o'r gwaith o reoli prosiectau. Byddwn yn meithrin gallu staff i helpu i gefnogi'r agenda "werdd", yn lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) ac yn genedlaethol yng Nghymru.

Bydd AWTTC yn cefnogi cynaliadwyedd trwy:

- Ystyried yr effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o'n gweithgareddau a gosod amcanion a thargedau ar gyfer gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol.
- Ystyried yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, a gofynion neu ymrwymadau amgylcheddol eraill.
- Ymgysylltu â chydweithwyr, rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd i sicrhau bod ein gwaith yn berthnasol ac yn gynaliadwy i GIG Cymru.
- Adolygu ein polisiau i ystyried newidiadau yn nhargedau Llywodraeth Cymru yn ogystal â ffactorau mewnol ac allanol.
- Ystyried effaith amgylcheddol prosiectau yr ymgwymerir â hwy gan AWTTC, i sicrhau bod yr effaith amgylcheddol yn cael ei lleihau cymaint â phosibl mewn cytundeb â phartion â diddordeb a monitro a mesur eu canlyniad o bryd i'w gilydd. Fel rhan o'r gwaith i wella ansawdd cynaliadwy, bydd gwerth canlyniadau gofal iechyd yn cael ei ystyried yn erbyn y llinell waelod driphlyg o effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol.

Ein ffocws fydd:

- Galluogi staff AWTTC i ddilyn yr agenda "werdd" yn y gwaith a:
 - lleihau ein defnydd o ddeunyddiau ac ynni;
 - defnyddio mentrau ailgylchu;
 - lleihau gwastraff meddyginiaethau; a
 - lleihau effaith amgylcheddol ein teithiau busnes drwy ddefnyddio trafndiaeth ecogyfeillgar, a mecanweithiau amgen i gyflawni ein gwaith yn effeithiol.

- Archwilio sut i fesur effaith gweithredoedd cynaliadwyedd AWTTC ar yr amgylchedd.
- Archwilio sut y gallwn werthuso effaith amgylcheddol meddyginiaethau newydd ym mhroses asesu technoleg iechyd AWMSG.
- Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses optimeiddio meddyginiaethau drwy gefnogi mentrau i:
 - leihau llygredd;
 - ailgylchu meddyginiaethau;
 - lleihau gwastraff meddyginiaethau;
 - hyrwyddo arfer gorau ar gyfer cyflyrau meddygol a achosir gan lygredd; a
 - chefnogi mentrau rhagnodi cymdeithasol.
- Defnyddio data i fonitro'r defnydd o feddyginiaethau ag ôl troed carbon uchel yng Nghymru ac adrodd ar gynnydd mentrau i wella cynaliadwyedd.
- Ymgysylltu â staff a'u cefnogi i hyrwyddo monitro amgylcheddol fel rhan o'r gwaith o reoli prosiectau a meithrin gallu staff i helpu i gyflawni agenda meddygaeth "werdd" yng Nghymru.
- Defnyddio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac anghydraddoldeb iechyd (EqHIA) i geisio sicrhau bod pob aelod o gymdeithas yng Nghymru yn cael ei hysbysu, yn cymryd rhan ac yn elwa o ganlyniadau ein prosiectau, gwaith optimeiddio meddyginiaethau ac arfarniadau meddyginiaethau, a pholisïau.

Cynllun gweithredu

Bydd AWTTC yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio ac yn gwneud newidiadau i wella ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Camau gweithredu cenedlaethol arfaethedig	Rhanddeiliaid
Anadlyddion anadlol - Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i ddangosfwrdd i alluogi rhanddeiliaid i fonitro'r defnydd o anadlyddion carbon uchel ac isel yng Nghymru. - Annog trafodaeth a datblygu mecanweithiau i leihau effaith amgylcheddol niweidiol anadlyddion anadlol ar genedlaethau'r dyfodol. - Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffyrdd o annog cleifion i gael gwared ar eu hanadlyddion yn briodol.	AWMSG AWPAG AWTTC Fferylliaeth Gymunedol Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol Llywodraeth Cymru
Lleihau gwastraff meddyginiaethau - Gweithio gyda Phrifysgol Bangor ar adolygiad systematig o'r ffyrdd o wella ymlyniad wrth feddyginiaethau. - Adroddiad ar gynnydd mentrau i wella cynaliadwyedd, fel ailgylchu meddyginiaethau a gwastraff. - Monitro'r gwaith o ragnodi meddyginiaethau yng Nghymru. - Adroddiad ar gynnydd mentrau i leihau amlgyffuriaeth amhriodol.	AWMSG AWPAG AWTTC Prifysgol Bangor Comisiwn Bevan Llywodraeth Cymru
Canllawiau triniaeth - Datblygu canllawiau i gefnogi triniaethau gwerth uchel ar gyfer salwch y gall llygredd effeithio arnynt fel clefyd y galon, asthma a COPD. - Ystyried a hyrwyddo mentrau presgripsiynu cymdeithasol drwy PAPIG i leihau'r defnydd o feddyginiaethau, er enghraifft, deiet ac ymarfer corff ar gyfer diabetes math 2.	AWMSG AWPAG AWTTC Grŵp Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd AWTTC Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol Llywodraeth Cymru
Ôl troed carbon meddyginiaethau - Monitro'r defnydd o feddyginiaethau ag ôl troed carbon uchel. - Annog trafodaeth a datblygu mecanweithiau i leihau effaith amgylcheddol niweidiol anadlyddion anadlol ar genedlaethau'r dyfodol.	AWMSG AWPAG Llywodraeth Cymru

Camau gweithredu cenedlaethol arfaethedig	Rhanddeiliaid
Mynediad at feddyginiaethau Ystyried sut y gellir gwerthuso ôl troed carbon meddyginiaethau mewn asesiadau. Gall hyn gynnwys ystyried: • deunydd crai a ddefnyddir • prosesau gweithgynhyrchu • cludiant sydd ei angen • dosbarthiad • defnydd (hyfforddiant, gweinyddiaeth, practis cyffredinol ac ymweliadau ag ysbytai) • effaith anuniongyrchol canlyniadau triniaeth ar anghenion cleifion am driniaethau a gwasanaethau eraill a allai greu eu heffaith amgylcheddol eu hunain • gwaredu (llosgi, math o wastraff) • effaith ar yr amgylchedd • llygredd dŵr	AWMSG AWTTC Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain Grŵp Diwydiant Meddyginiaethau Moesegol (EMIG) Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG) Cwmnïau fferyllol

Camau gweithredu lleol arfaethedig	Rhanddeiliaid
Ynni Lleihau'r defnydd o ynni a defnyddio ynni'n briodol drwy: • diffodd goleuadau wrth adael y swyddfa neu'r ystafell; • defnyddio gwres ychwanegol yn briodol.	Staff AW TTC
Bwyd a gwastraff • Ailgylchu gwastraff bwyd. • Lleihau defnydd gormodol o ddŵr. • Lleihau'r defnydd o blastigion (er enghraifft, staff i ddefnyddio cwpanau eu hunain).	Staff AW TTC
Yr amgylchedd • Dilynwch bolisi dim ysmegu BIP Caerdydd a'r Fro. • Ailgylchu gwastraff. • Argraffwch ddogfennau dim ond pan fo angen.	Staff AW TTC
Caffael • Gwneud penderfyniadau caffael cynaliadwy. • Lleihau'r broses o archebu dyfeisiau untro.	Staff AW TTC
Cludiant Mae teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yn achos sylweddol o lygredd carbon. • Defnyddio dulliau teithio ecogyfeillgar lle bo modd. • Defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda a chyfarfodydd rhithwir/hybrid pan fo'n briodol. • Teithio llesol (cerdded, seiclo) os yn bosibl.	Staff AW TTC
Cydraddoldeb • Cwblhau ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac lechyd a sicrhau ei bod yn cael ei hystyried gan AWMSG a'i is-bwyllgorau ar gyfer pob prosiect a pholisi mewnol, prosiectau optimeiddio meddyginiaethau ac arfarniadau meddyginiaethau. • Sicrhau bod ein gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi mewn fformatau sy'n hygyrch i bawb.	Staff AW TTC Grŵp Cydraddoldeb AW TTC Arweinwyr prosiect allanol

Bydd AW TTC yn gweithio ar y cyd â Grŵp Gwyrdd BIPCAF a phwyllgorau amgylcheddol cenedlaethol (fel lechyd Gwyrdd Cymru).